


Y Drindod Dewi Sant

Ymagwedd holistaidd at gynaliadwyedd wrth galon cwricwla'r brifysgol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Y Drindod Dewi Sant

Trosolwg

Mae'r stori hon am ddatblygu cynaliadwy yn dangos sut fydd yr ymagwedd 'system gyfan' at gynaliadwyedd yn arwain at ymgysylltiad â'r brifysgol gyfan wrth sicrhau, trwy ddulliau holistaidd, fod cynaliadwyedd yn elfen greiddiol o holl weithrediadau a rheolaeth y brifysgol.

Cefndir

Roedd uno Coleg y Drindod yng Nghaerfyrddin a Phrifysgol Cymru Llamed yn gyfle i Brifysgol unedig Y Drindod Dewi Sant (YDDS) ystyried ei rôl yn y dyfodol a'r hyn yr oedd ganddi i'w gynnig. Wedi cymryd rhan ym menter Academi Werdd yr Academi Addysg Uwch, penderfynodd Cyngor y Brifysgol sefydlu athrofa cynaliadwyedd i wahaniaethu yr hyn a gynigiwyd er mwyn cael mantais gystadleuol, ar sail cyfres gadarn o werthoedd moesegol a oedd eisoes yn bodoli.

Canlyniadau

Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru

Tystiolaeth

Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth

Cydweithio

Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau

Hir dymor

Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau

Cysylltu

Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

Tryloywder

Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Cyn datblygu INSPIRE (Sefydliad Arfer Cynaliadwy ac Effeithiolrwydd Adnoddau), nid oedd gan y brifysgol unrhyw hanes o ymgysylltiad strategol â'r agenda cynaliadwyedd. Mae uno presennol YDDS a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe yn gyfle pellach i symud yr ymagwedd system gyfan yn ei blaen yn y brifysgol newydd.

Pam

Mae tystiolaeth gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a mudiadau cyflogwyr yn cefnogi'r angen i ddatblygu sgiliau ar gyfer cynaliadwyedd. Erbyn hyn, mae graddedigion angen cyfres newydd o sgiliau i'w galluogi i ddelio â'r dyfodol y byddan nhw'n gweithio ynddo ac yn byw ynddo. Trwy gymryd rhan yn rhaglen yr Academi Werdd, ymrwymodd y brifysgol i gymryd ymagwedd holistaidd at sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth galon ei holl weithrediadau a'i hymgysylltiad.

Beth wnaethon nhw

Gydag ymagwedd INSPIRE, mae datblygu cynaliadwy yn cael ei osod yn systematig wrth galon YDDS gyda chefnogaeth gref yr Is-ganghellor a sefydlu Cyfarwyddiaeth Cynaliadwyedd newydd gyda'r cyfarwyddwr yn eistedd ar yr uwch dîm rheoli. Lansiwyd yr ymagwedd hon trwy brosbectws ym mis Ionawr 2012 gydag ymrwymadau at lywodraethu, campws, cwricwlwm a phartneriaethau. Cyflwynir adroddiad rheolaidd gerbron y Senedd a Chyngor y Brifysgol.

Wrth galon yr ymagwedd, mae'r ymdrech i sicrhau bod yr agenda datblygu cynaliadwy mor berthnasol a chyffrous â phosib i fyfyrwyr a staff trwy ail-ddilysu cynnwys cyrsiau i gynnwys cynaliadwyedd o fewn disgyblaethau unigol; trwy sicrhau bod cynaliadwyedd wrth galon ymrwymadau strategol y brifysgol; trwy edrych am bartneriaethau, ee, gyda Chanolfan y Dechnoleg Amgen, i ddangos y ffordd mewn gweithgarwch cynaliadwyedd.

| | | | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------|--------|---|
| How can we reduce our water consumption on campus and at home? <i>Ideas under this topic relate to reducing water consumption, water recycling and water saving.</i> | ★ 4 Ideas to rate | + Idea | 4 |
| How can we improve or maintain the sustainability of our buildings? <i>Ideas in this topic relate to how the University's structures can be built and maintained sustainably.</i> | ★ 1 Idea to rate | + Idea | 1 |
| How can we reduce pollution at TSD? <i>Improve the quality of air, soil and water environments across the TSD campus that create the conditions that allow all living organisms to thrive.</i> | ★ 2 Ideas to rate | + Idea | 4 |
| How can we improve Biodiversity and Green Spaces? <i>Ideas for landscaping the campus.</i> | ★ 2 Ideas to rate | + Idea | 2 |
| Ideas to improve the impact of transportation? <i>Reducing environmental impact through development of sustainable modes of transport</i> | ★ 4 Ideas to rate | + Idea | 4 |

Cipolwg ar sgrin llwyfan Vocal Eyes YDDS

Ceir ymrwymadau penodol yng nghynlluniau strategol y brifysgol ac ymhob ymateb statudol i Lywodraeth Cymru.

Pa rwystrau oedd yn bodoli

O ganlyniad i'r ymrwymiad cryf a oedd eisoes yn bodoli i foeseg, cyfiawnder cymdeithasol a'r amgylchedd, a hynny ar lefel gorfforaethol ac ymhlith aelodau unigol o staff, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad o gwbl i'r brifysgol ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy, ond roedd staff yn poeni'n bennaf am ddau faes eang; ystyr yr agenda newydd i'w harferion presennol a sut oedd angen iddynt fod ynghlwm â'i drosglwyddiad fel na fyddai'n cynyddu eu llwyth gwaith.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Dyma'r prif faterion:

- Cysyniad newydd i lawer o bobl,
- Pryder ynghylch sut i ddiffinio datblygu cynaliadwy,
- Pryder ynghylch yr agenda 'llywodraethu ideolegol'
- Pryder ynghylch ychwanegu at lwyth gwaith sydd eisoes yn llawn

Beth newidiodd

Mae ymgysylltu â phob rhan o'r brifysgol, llywodraethwyr, staff (staff academiaidd a chymorth) a myfyrwyr eisoes wedi bod yn rhan allweddol o siwrnai YDDS.

Datblygodd yr Arolwg o Sgiliau Cynaliadwyedd, ymhlith staff academiaidd a chymorth, sylfaen dystiolaeth o arbenigedd, profiad a diddordeb mewn cynaliadwyedd a oedd eisoes yn bodoli. Cwblhaodd 35% o'r staff yr arolwg gwreiddiol, gan nodi cyfleoedd ar gyfer cwricwla a thestunau ymchwil newydd. Roedd yr ymagwedd hon yn bwysig i sbarduno brwdfrydedd a chefnogaeth ar gyfer yr agenda.

Mae'r 'Gyfnewidfa Cynaliadwyedd' newydd yn dod â myfyrwyr a staff i gysylltiad â chyfleoedd i gymryd camau ynghylch newid cynaliadwy, gan ddefnyddio Vocal Eyes, sef porth ar-lein. Yn ystod y mis cyntaf, cafwyd 75 o syniadau newydd. Cyflwynwyd ysgoloriaethau byw'n gynaliadwy newydd i fyfyrwyr newydd.

Datblygwyd partneriaethau strategol i yrru canlyniadau cynaliadwyedd, gan gynnwys a) gyda Chanolfan y Dechnoleg Amgen, b) creu "Cadeirydd Lles yng Nghefn Gwlad", a benodwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth a Bwrdd Iechyd Hywel Dda, c) partneriaethau newydd gyda'r awdurdodau lleol i yrru ymddygiad cynaliadwyedd mewn meysydd o ddiddordeb a rennir ac ch) cynlluniau uno ar gyfer y dyfodol i drawsnewid YDDS yn brifysgol sector deublyg sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion.

O ganlyniad i'r holl waith yma, cyrhaeddodd INSPIRE rhestr fer categori cynaliadwyedd Gwobrau Addysg Uwch cyntaf y Guardian.

Er bod staff a myfyrwyr wedi bod ynghlwm yn rheolaidd â gweithgarwch datblygu cynaliadwy unigol ers blynnyddoedd lawer, ni chafwyd **ymrwymiad a rennir gan fyfyrwyr a'r brifysgol** i sicrhau canlyniad, tan nawr.

Erbyn hyn, mae pob cyfadran yn y brifysgol yn medru dangos sut mae eu cynlluniau trosglwyddo yn integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i o leiaf 15% o gynnwys eu cwrs, a bydd hyn yn rhoi **mantais gystadleuol** newydd wrth recriwtio myfyrwyr. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gynyddu'r cysylltiadau rhwng prosiectau ymchwil y brifysgol a datblygu cynaliadwy yn strategol. **Mae contractau newydd yn cael eu hennill** mewn perthynas â hyn sy'n helpu creu incwm ac yn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth.

Mae enw da'r brifysgol fel cyrchfan ar gyfer gweithgarwch datblygu cynaliadwy yn tyfu. Ceir ceisiadau rheolaidd i gynrychiolwyr y Brifysgol annerch mewn cynadleddau, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae prifysgolion eraill ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Bryste, St Andrews a Nottingham yn ystyried dilyn yn ôl troed Y Drindod Dewi Sant o ran yr archwiliad staff, a bydd hyn yn gwella'r sylfaen dystiolaeth yn y Deyrnas Unedig.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Beth ddysgon nhw

Mae ymgysylltu ar bob lefel yn hollol hanfodol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Cyfarwyddwr INSPIRE a phenaethiaid adrannau eraill i gymharu cynnydd a heriau mewn perthynas â chynaliadwyedd; mae'n gweld hyn fel

'cam gwerthfawr' i gadw'r drafodaeth yn gyfredol a chlywed am y cynnydd sydd ar waith.

Mae dod o hyd i'r **gwerthoedd cyffredin sy'n bwysig i bobl yn hanfodol** wrth greu sylfaen i adeiladu uchelgais a hefyd wrth ddelio gydag anghytundeb neu wrthdaro. Roedd diwylliant YDDS a Llambled ill dau'n uniaethu'n gryf â 'gofal'. Mae hyn yn caniatáu i feysydd mor amrywiol â gofal cymdeithasol i oedolion a'r clasuron gydnabod bod ganddynt elfennau cyffredin.

Mae angen **hyrwyddwyr prosiectau** i sicrhau nad yw'n cael ei weld fel agenda o'r copa i lawr. Mae'r Gyfnewidfa Cynaliadwyedd wedi galluogi hyrwyddwyr i gynyddu eu dealltwriaeth a'u hymrwymiad.

Rhaid bod yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio datblygu cynaliadwy yn addas at y diben ac mae'n medru amrywio yn ôl y gynulleidfa. Trosglwyddiad y cysyniadau sy'n bwysig. Yn aml, mae'n ddoethach gweithio gyda geiriau a chymalau sy'n gyfarwydd i'r gynulleidfa yn hytrach na chyflwyno iaith hollol newydd. Roedd y Llywodraethwyr, er enghraifft, yn gyffyrddus â chymalau fel 'future proofing' neu 'fit for the future' ac roedd 'perthnasol' yn medru uniaethu â'r syniad o dyfu dinasyddion sy'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar draws y byd.

Mae mynediad at gymorth ac adnoddau datblygu cynaliadwy, yn fewnol ac yn allanol, yn hanfodol. Cafwyd ymrwymiad cynnar i sicrhau bod yr holl becynnau cymorth a'r dysgu sydd ynghlwm â sicrhau bod cynaliadwyedd wrth galon y brifysgol, ar gael i brifysgolion eraill trwy fecanweithiau ffynhonnell agored, trwy rwydweithiau cynaliadwyedd sydd eisoes yn bodoli. Mae effeithiau cilyddol hyn eisoes yn cael eu gweld trwy rwydweithiau fel yr Academi Addysg Uwch.

Yr ymagwedd systematig yw'r unig ffordd ymlaen. Roedd trosglwyddo ar draws y brifysgol gyfan yn allweddol er mwyn i YDDS ymgysylltu â llawer mwy o bobl – ar y campws, trwy'r cwricwlwm ac yn y gymuned.

"Mae pawb am weld ffyrdd mwy gweithgar o ddatrys problemau, dinasyddion sy'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ar draws y byd yn dod allan o'r system addysg. Nod INSPIRE yn YDDS yw ysbrydoli arweinwyr y cyfadrannau a'r cwricwla yn y brifysgol i droi'r dyhead hwn yn weledigaeth sydd ar waith ar draws y brifysgol gyfan ac yn cael ei throsglwyddo gan bob un ohonom. Ein gwaith ni fel addysgwyr yw rhoi'r sgiliau i'n myfyrwyr i helpu creu'r amodau ar gyfer newidiadau hir dymor. Er mwyn i ni wneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol, rhaid i ni ddangos ein bod ni'n credu yn yr hyn yr ydyn ni'n ei wneud, trwy ei wneud ein hunain."

Jane Davidson

Manylion Cyswilt a Dolenni

Jane Davidson - Cyfarwyddwr INSPIRE

jane.davidson@tsd.ac.uk

01267 676765

INSPIRE, Sefydliad Arfer Cynaliadwy ac Effeithiolrwydd Adnoddau
Yr Academi Addysg Uwch
Cyfnewidfa Cynaliadwyedd INSPIRE
Amgylcheddol Colegau a Phrifysgolion Effaith Gwyrdd
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Gwobrau Addysg Uwch y Guardian

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>



CHANGE
FOR
GOOD

